

O Gwmpas 2013

yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych



Hwyl, Cerdded a Beicio i'r Teulu a llawer mwy

AM DDIM

Croeso

Mae ein rhaglen o weithgareddau, digwyddiadau a theithiau cerdded yn 2013 yn gyfle i fwynhau tirlun godidog Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a'r wlad o'i chwmpas.

Rydyn ni wedi defnyddio eich sylwadau gwerthfawr i ddewis, yn ofalus, raglen y byddwch, gobeithio, yn ei mwynhau cymaint â'r un y llynedd. Cofiwch ddal i anfon eich sylwadau atom ni ar y ffurflen amgaeedig ac ar y ffurflenni gwerthuso ar y diwrnod.

Fe hoffen ni fanteisio ar y cyfle i ddiolch i, Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Gadwyn Clwyd ac i Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig am gefnogi'r rhaglen o ddigwyddiadau am ddwy flynedd. Mae'r arian hwnnw wedi dod i ben ac allwn ni ddim gwarantu y gallwn ni gynhyrchu copi papur o O Gwmpas yn 2014, ond fe fyddwn ni'n cyhoeddi pob digwyddiad ar ein gwefan ac ar eventsnorthwales fel arfer. Os hoffech chi dderbyn dolenni, anfonwch eich cyfeiriad e-bost atom ni a byddwn yn ei roi ar fasdata Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych (nid yw hwn yn cael ei rannu gyda neb arall).

Cofiwch archebu lle ar y digwyddiadau i'r teulu sydd â'r symbol hwn  yn ystod y saith diwrnod cyn y digwyddiad. Cofiwch hefyd archebu lle ar bob un o'r teithiau cerdded, mae'n ein helpu i gael digon o staff wrth law ar eu cyfer. A, chofiwch hefyd adael i ni wybod os na fyddwch yn gallu bod yn bresennol, mae gennym ni restr aros fel arfer o bobl sy'n awyddus i gymryd rhan.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau mynd O Gwmpas yn ein cefn gwlad godidog.





Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
Parc Gwledig Loggerheads, ger yr Wyddgrug, Sir Ddinbych CH7 5LH
☎ 01352 810614 e-bost: loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk
Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
Cyfarwyddiaeth Amgylchedd
Cyngor Sir Ddinbych

www.denbighshirecountryside.org.uk
www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk
www.visitclwydianrange.co.uk
www.ridenorthwales.co.uk



Hoffwch ni ar Weplyfr
Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych ac AHNE Bryniau
Clwyd

facebook



Sganiwch y QRcode hwn gydag App darllen QR code eich ffôn clyfar

Mae'r llyfryn hwn a'r digwyddiadau wedi derbyn grant gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a gan y Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, a gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.



Pethau i'ch helpu i ddewis y gweithgaredd neu'r digwyddiad iawn i chi:



Canllaw oed



Mynediad hawdd



Tâl am ddigwyddiadd



Archebwch og gwelch yn Dda



Galwch draw



Bws am ddim



Tro hawdd



Tro cymhedrol



Tro caled



Cwn ar denyn



Gwirfoddoli



Beicio

Rydyn ni'n tynnu lluniau yn y rhan fwyaf o'n digwyddiadau i'w defnyddio mewn taflenni a chyhoeddusurwydd yn nes ymlaen. Os nad ydych eisiau i'ch llun gael ei dynnu, rhwch wybod i un o'r arweinwyr cyn i'r digwyddiad ddechrau.



Efallai na fydd y digwyddiad yma yn addas i bobl ifanc iau na'r oedran wedi ei nodi.



Cyfleusterau mynediad hawdd



Codir tâl am y digwyddiad yma Cofiwch fod yn rhaid i blant fod yng ngofal oedolion bob amser.

I'ch helpu i ganfod o ble mae'r daith gerdded yn cychwyn, defnyddiwch www.gridref.org.uk – rhwch y cyfeirnod grid yn y blwch chwilio ac fe gewch fap.



I gael gweithgareddau cadw lle i'r teulu chwiliwch am y symbol yma, ond cofiwch archebu eich lle yn ystod y saith diwrnod cyn y digwyddiad. Os na allwch fod yn bresennol, cofiwch adael i ni wybod fel y gallwn gynnig eich lle i rywun arall. Mae croeso, yn ein digwyddiadau galw i mewn, i glybiau gwyliau ac i ofalwyr gyda phedwar neu ragor o blant ond cofiwch eu bod yn brysur ac efallai y bydd yn rhaid i chi aros am le. Yn anffodus, allwn ni ddim derbyn grwpiau ar ein digwyddiadau Cadw Lle.



I gael gweithgareddau galw i mewn i'r teulu chwiliwch am y symbol yma.

Teithiau Cerdded Tywys
Rydyn ni wedi gosod ein teithiau cerdded mewn categorïau bras i'ch helpu i ddewis y rhai gorau i chi.



Taith gerdded fer ar lwybr ag wyneb caled neu weithgaredd hawdd i'r teulu.



Hawdd (byr a gwastad, rhai wynebau rhydd)



Cymhedrol (rhai rhannau serth ac wynebau rhydd)

I archebu neu am fwy o wybodaeth ffoniwch 01352 810586 neu 01352 810614



Anodd (Hir a chaled, tir anwastad, serth)

GWISGWCH ddillad llac, cyfforddus ac esgidiau neu trainers cadarn. Mae'n rhaid iddyn nhw fod â gafeal da!

DEWCH â dillad glaw os yw rhagolygon y tywydd yn ansicr, diod a thamaid i'w fwyta.



NID oes croeso i GŴN fel arfer ar ein teithiau tywys. Mae rhai teithiau'n addas i gŵn ar dennyn, chwiliwch am y symbol yma.

Rydyn ni'n ceisio peidio â chanslo unrhyw daith ond, os byd yn rhaid, byddwn yn ffonio pawb sydd wedi archebu lle.

Bydd y daith ar GYFLYMDER y cerddwr arafaf. Peidiwch ag ymuno â'n teithiau os ydych eisiau rhuthro!

I archebu lle neu i gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 01352 810586 neu 01352 810614 neu e-bostiwch: loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk

Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn cynnig rhaglen wirfoddoli lawn ddwywaith y flwyddyn sy'n cynnwys manylion y cyfleoedd i gynnal a chadw ein cefn gwlad a'n bywyd gwyllt a dysgu sgiliau traddodiadol wrth ddod yn ffit.



Chwiliwch am weithgareddau gyda'r symbol yma i gael rhai digwyddiadau gwirfoddoli i chi eu blasu. Mae'r Rhaglen Wirfoddolwyr lawn ar gael o www.clwydianrangeanddeevallyeaonb.org.uk.

Gwisgwch am gybolfa! Gwisgwch esgidiau cyfforddus, cadarn sydd â gafeal da, dewch â dillad glaw a phecyn bwyd.

Bydd hyfforddiant llawn ar gael. Cofiwch sicrhau bod eich brechiad tetanws yn gyfoes!

Teithiau Cerdded Byr i'r Teulu yn yr AHNE

- Chwiliwch am focs y lliw hwn.

Her Teithiau Cerdded Byr

Cewch archwilio'r AHNE yn Nyffryn Dyfrdwy bob mis, o'r Waun i Gynwyd. Bydd y teithiau tua dwy filltir o hyd ac mor wastad â phosibl. Bydd cymaint o'r teithiau â phosibl yn gorffen gyda rhywbeth i'w fwyta a'i yfed mewn café neu dafarn leol...ac yn anffodus bydd yn rhaid i chi dalu am eich diodydd eich hun!

Her Chwilota'r Estyniad

Dewch i archwilio cyfaredd Dyffryn Dyfrdwy a gweld pam fod y tirlun yma wedi'i gynnwys yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy pan gafodd ei hymestyn yn ddiweddar.



neu ebostiwch: loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk

Bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn arwain teithiau tywys yng Nghastell y Waun ar ddydd Mercher olaf pob mis, o 4 i 12 milltir. Bydd pob taith yn cychwyn am 9.30 am o'r maes parcio yng Nghastell y Waun. I gael rhagor o wybodaeth ac i archebu lle, ffoniwch 01691 777701



Hanner Tymor 9 – 17 Chwefror

Dydd Llun 4 Chwefror
Cerddoriaeth Ddydd Llun yng Nghaffi Florence
2pm – 4pm
Gorffennwch eich taith mewn steil a moethusrwydd neu ddim ond mwynhau Liam Byrne ac Andy Hulme: sacsoffon jas a gitâr mewn lleoliad ysbennnydd. Parc Gwledig Loggerheads.



Dydd Llun 11 Chwefror
Taith Gerdded Ddechrau'r Gwanwyn 10 – 12pm
Dewch i ganfod arwyddion y gwanwyn o gwmpas Rhaeadr y Bedol ac Eglwys Llandysilio. Cyfarfod ym maes parcio Grŵn Llandysilio am daith gerdded fer i'r teulu i gyd (rhaid giatiau mochyn ar y daith) SJ198433.



Dydd Mercher 20 Chwefror
Grŵn Llandysilio
Ymunwch â ni am dro ar lonydd tawel a llwybrau troed o gwmpas Coed Hyrddyn. Byddwn yn gorffen yng Ngwesty'r Chain Bridge. Cyfarfod ym maes parcio Grŵn Llandysilio SJ198433



Dydd Llun 4 Mawrth
Pamela Wyn Shannon yng Nghaffi Florence

2pm – 4pm
Gorffennwch eich taith mewn steil a moethusrwydd neu ddim ond mwynhau cerddoriaeth dda mewn lleoliad ysbennnydd. Parc Gwledig Loggerheads.



Dydd Iau 7 Mawrth a Dydd Gwener 8 Mawrth

Prysurdeb y Pili Pala

10am – 3pm
Dewch i'n helpu ni i wella lle mae'r byrddau picnic yng Nghoetir Cymunedol Prestatyn. Byddwn yn adeiladu Cafnau Planhigion ar y Ddaear i blannu llwyni sy'n bwysig i gadw amrywiaeth poblogaeth gloynod byw. Cyfarfod ym Maes Parcio Coetir Cymunedol Coed Morfa SJ058823



Dydd Sul 10 Mawrth

Pleser Sul y Mamau

Te bach pnawn traddodiadol i wneud i famau deimlo'n drysor ym Mharc Gwledig Loggerheads. £7.75 oedolion, £4.25 plant. Ewch i www.caffiflorence.co.uk (ffôn) 01352 810397



Dydd Mercher 13 Mawrth

Gwersi darllen mapiau i ddechreuwyrr

2pm – 4.30pm

Darllen mapiau sylfaenol i'r rhai sydd eisiau gloywi eu gwybodaeth. Cewch brofi'ch sgiliau ar daith gerdded fechan. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.



Dydd Mercher 14 Mawrth

O gam i gam yn y gwanwyn

10am – 12pm

Byddwn yn mwynhau ddechrau'r gwanwyn gyda thaith ysgafn drwy hen doriad y rheilffordd ac o gwmpas gwaelodion Caer Drewyn. Cyfarfod ym maes parcio Canolfan Hamdden Corwen.



Gwyliau'r Pasg
23 Mawrth – 7 Ebrill

Dydd Sadwrn 23 Mawrth

Diwrnod y Galon Fawr ym Mhwll Dŵr Brickfields

12pm – 4pm

Cewch ddathlu bod yn iach yn yr awyr agored, cymryd rhan mewn teithiau cerdded ysgafn, gwneud rhai pethau rhyfeddol o ddefnyddiau ailgylchu a gweld panel newydd yn cael ei ddadorchuddio. Pwll Dŵr Brickfields, y Rhyl



Dydd Sadwrn 23 Mawrth – Dydd Sul 7

Ebrill

Pennau'r Pasg Loggerheads

10am – 4pm

Cymerwch ddalen Pennau'r Pasg o Ganolfan Bryniau Clwyd a mynd â hi i Gaffi Fflorens ar ôl ei llenwi i gael danteithyn y Pasg. Parc Gwledig Loggerheads



Dydd Llun 25 Mawrth

Gwneud Blychau Adar

10 – 12pm

Cewch ddysgu am gartrefi gwahanol adar a gwneud blwch adar i fynd adref. Fe fyddwn ni hefyd yn gwneud modelau bwystfilod bychan. Y Pafiliwn Chwaraeon, Corwen, SJ079437.



Dydd Sadwrn 30 Mawrth

Llwybr y Pasg

11am – 3pm

Cewch ddilyn Llwybr y Pasg drwy'r goedwig ac ateb cwestiynau ar y ffordd i ennill eich danteithyn y Pasg. Cyfarfod ym maes parcio Coed Moel Famau SJ172612.



Dydd Iau 4 Ebrill

Helfa Fawr Wyau'r Pasg

10.30am – 12.30pm

Cerdded y traeth yn Nhwyni Gronant i chwilio am bwrs y forforwyn (casys wyau siarcod a chathod môr) a helpu i gyfrannu at fonitro blynyddol y creaduriaid cyfareddol yma. Mae yna ychydig bach o waith cerdded o'r maes parcio i'r traeth. Dewch â welintons a rhywbeth i ddal y casys wyau. Croeso i grwpiau. Cyfarfod ym maes parcio Gronant Isaf (gyferbyn a Chaffi Crofters Pantry) SJ090836



Dydd Sadwrn 6 Ebrill

Her Cefn Gwlad i'r Teulu – Parc

Gwledig Loggerheads

9am – 11.00am

Treulio'r bore yn yr awyr agored hudolus, yn datrys cliwiau, yn dilyn llwybrau ac yn cael hwyl yn erbyn y cloc i drechu'r her cefn gwlad! Bydd yna wobr fechan i'r teulu sy'n llwyddo i gwblhau'r her yn gywir ac yn gyflymaf. Bydd yna ddewis o un ai her fer neu her hirach, anoddach, addas ar gyfer teuluoedd â phlant hŷn.

Challenge 1 –



Challenge 2 –



Dydd Sul 7 Ebrill (Sul cyntaf o bob mis tan fis Medi)

Taith Hanes Helygain

11am

Dewch i ddysgu am hanes Helygain ar y daith gerdded gyfareddol hon yn cael ei harwain gan Wirfoddolwyr Troedio Clwyd, Cyfarfod yn Nhafarn y Blue Bell, Helygain.

www.walkaboutflintshire.co.uk



Dydd Sadwrn 13 Ebrill

Llwybr Cwrw Go Iawn

Tocynnau £10 o flaen llaw £15 ar y diwrnod.

www.realaletrailflintshire.co.uk



Dydd Mercher 17 Ebrill

Plas Newydd

10am – 12pm

Dewch i fwynhau taith ar un o'r llwybrau y byddai Ladis Llangollen yn eu cerdded o gwmpas Fron Bache. Byddwn yn gorffen yn y café ym Mhlas Newydd. Cyfarfod ym Mhlas Newydd, Llangollen. SJ218416



Dydd Llun 22 Ebrill

Popeth ynghylch gwenyn

2 – 5pm

Dewch i ddysgu am y creaduriaid cyfareddol a phwysig yma a sut y gallwn ni eu helpu. Bydd yna gyflwyniad i gadw gwenyn o 2 -3 pm ac yna gallwch wneud eich cartref gwenyn eich hunan (nid cychod!). o 3.30 – 5pm Y Caban, Plas Newydd, Llangollen



Dydd Sadwrn 27 Ebrill

Brennig, Beiciau a Blychau – Diwrnod Cefn Gwlad Agored

11am – 4pm

Diwrnod llawn hwyl i'r teulu o weithgareddau celf, gwneud blychau adar, rhoi tro ar drac sgiliau beic coed, gwneud smwddi, cael prawf iechyd ar eich beic, ymuno â gweithdy sylfaenol trin beiciau a llawer iawn mwy. Archebwch eich lle i ymuno â reid feic o amgylch Llyn Brennig yn cychwyn am 11.00am. Canolfan Ymwelwyr Llyn Brennig



Sadwrn 4 Mai

Taith Gerdded Pen-blwydd Cyntaf Llwybr Arfordir Cymru Cychwyn

10.30am neu 2pm

Ymunwch â ni i ddathlu blwyddyn o Lwybr Arfordir Cymru drwy gerdded pump neu ddeg milltir o'r llwybr. Bydd y daith bum milltir yn dilyn y promenâd o'r Rhyl i Brestatyn ac yn cychwyn yn y Marine Lake yn y Rhyl am 2.00pm. Bydd y daith hirach, ddeg milltir, yn cychwyn yn y Fun Ship ym Mostyn am 10.30am. Bydd y ddwy daith yn gorffen yng Nghaffi Cymru ym Mhrestatyn tua 4.00pm.

Mae lle parcio yn y Rhyl, yng Nghanolfan y Nova ym Mhrestatyn ac ym Mostyn. Mae yna wasanaeth bws rheolaidd yn cysylltu'r tri lle yma. Mae manylion amserlenni'r bysiau ar Traveline-cymru.



Dydd Llun 6 Mai

Ras Hwyaidd Flynyddol Calan Mai

10am – 3pm

Bydd Grŵp Sgowtiaid Trinity Fammau,

mewn partneriaeth â Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, yn rhyddhau 2000 o hwyaid i Afon Alyn ym Mharc Gwledig Loggerheads. Mae hyn yn ffordd wych o godi arian i sgowtiaid yr ardal ac yn ddiwrnod allan ardderchog i'r teulu.



Dydd Mercher 8 Mai 2012

Chwilota'r Estyniad I:

Llangollen – y Waun

10am – 4pm

Dewch i archwilio cyfaredd Dyffryn Dyfrdwy a gweld pam fod y tirlun yma wedi'i gynnwys yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy pan gafodd ei hymestyn yn ddiweddar.

Mae'r daith gerdded hon yn cysylltu Llangollen a'r Waun, ac yn mynd drwy olygfeydd ysblennydd a gerddi godidog Castell y Waun. Byddwn yn aros am baned yn y Castell ac yna bydd Warden yr Ystâd yn ein harwain drwy'r tiroedd ac yn sôn am y coed hynafol, cyn gorffen yng ngorsaf y Waun i ddal y bws adref. Cyfarfod yn y Ganolfan Groeso, Llangollen, 10.00am Taith fws am ddim yn ôl o'r Waun.



Dydd Mercher 15 Mai

Basn Trefor

10am – 12pm

Mae'r daith gerdded hon yn cynnwys Camlas Llangollen a'r hen reilffordd, felly mae'r rhan fwyaf ohoni'n wastad ac ag wyneb da. Byddwn yn cael cip ar y draphont ddŵr ac ar y ganolfan ymwelwyr cyn gorffen gyda phaned ar y cei neu yn nhafarn Telford. Cyfarfod ym maes parcio Basn Trefor. SJ272423



Dydd Gwener 17 – Dydd Sul 19 Mai

Gŵyl Gerdded Prestatyn a Bryniau Clwyd

www.prestatynwalkingfestival.co.uk
01745 857185

Friday 17 May

Dinas Brân yn y Gwyll

8 – 10 pm

Ydych chi erioed wedi meddwl beth sy'n dod allan yn y nos yn Ninas Brân? Dewch gyda ni am dro gyda'r nos gyda chanfodyddion ystlumod a thrapiau gwyfynod i weld beth allwn ni ei ganfod.

Cyfarfod yn Ysgol Dinas Brân (ger y Ganolfan Hamdden), Llangollen



Dydd Sadwrn 18 Mai

Diwrnod Agored Beiciau a Chefn Gwlad

11am – 4pm

Diwrnod llawn hwyl i'r teulu gyda chrefftau, arddangosfeydd BMX, cerdded Nordig, gwneud smwddi, dewch â'ch beic i gael prawf iechyd, ymunwch â gweithdy sylfaenol trin beiciau a rhoi tro ar gylchdro BMX a'r





Ilwybr beiciau. Marsh Tracks, Glan Morfa, y Rhyl

Dydd Sul 19 Mai

Clychau'r Gog Gogoneddus

11am – 2pm

Ymunwch â ni yn y Gerddi Te yn Loggerheads i ddysgu am glychau'r gog a gwneud un anferth i chi fynd â hi adref.



Dydd Mawrth 21 a Dydd Mercher 22 Mai

Codi Waliau Sychion

10am – 4pm

Rhowch dro – neu wella'ch sgiliau – ar godi waliau sychion. Byddwn yn ail adeiladu rhannau o'r wal derfyn ger bryngaer Caer Drewyn felly bydd yn gyfle i ddysgu ychydig hefyd ynghylch sut roedd ein cyndadau'n arfer byw yma. Maes Parcio Canolfan Hamdden Corwen



Hanner Tymor 25 Mai – 2 Mehefin

Dydd Sadwrn 25 Mai a Dydd Sul 26 Mai

Breuddwyd Noson o Hirddydd Haf 'Ni fu llwybr serch erioed yn un llyfn'

Stori llawn doniolwch Shakespeare o gariad, swyn a direidi gan Gwmni Theatr arloesol a chyffrous Taking Flight. Perfformiad promenâd gyda cherddoriaeth fyw a phypedau a hefyd laith Arwyddo Prydain / Saesneg. Parc Gwledig Loggerheads. Rhagor o fanylion ar ein gwefan ac ar ein tudalen gweplyfr.



Dydd Iau 30 Mai

Taith y Troellwr

8 – 11pm

Taith gyda'r nos i Goed Nantyr i gael blas ar fywyd nos y goedwig. Os ydyn ni'n lwcus, mi gawn glywed cân hudolus ac ehediad y troellwr mawr swil. Gan fod lle parcio'n brin, bydd bws mini am ddim i fynd â ni yno ac yn ôl (cyrraedd yn ôl tua 11.00pm). Cyfarfod ym maes parcio Stryd y Farchnad, Llangollen. Lle'n brin, rhaid archebu.



Dydd Gwener 31 Mai

Tair Tref Ganoloesol Rhuddlan

10am – 12 noon

Taith gerdded i'r teulu yn mynd â chi'n ôl dros y canrifoedd i ddarganfod a gweld rhywfaint o hanes cymhleth Rhuddlan. Cyfarfod yn y maes parcio yn Parliament Street, SJ024781



31 Mai, 1 & 2 Mehefin

Woodfest, Llanelwyr

www.woodfestwales.co.uk



Dydd Mawrth 4 Mehefin

Y Diweddaraf ar y Forwennol Fechan

11am – 12noon

Dewch i'r llwyfan gwylio ar y twyni i gyfarfod ag un o'r wardeiniaid. Cewch weld a chlywed y diweddaraf ar gynnydd safle nythu'r forwennol fechan brin pob dydd Mawrth trwy'r tymor nythu. Gallwch barcio ym maes parcio Gronant Isaf (gyferbyn â chaffi Crofters Pantry), SJ090836 a dilyn y ffordd i fynedfa Presthaven, troi i'r chwith a dilyn Llwybr yr Arfordir.



Dydd Iau 6 Mehefin

Bywyd y Nos yn Nercwys

8.30pm – 11pm

Taith gerdded 2 ½ milltir gyda'r nos i ddarganfod (gobeithio) troellwyr mawr, ystlumod, tylluanod a gwyfynod. Dewch â thortsh. Argymhellir eli rhag pryfed! Coed Nercwys (ger yr Wyddgrug) maes parcio'r gogledd SJ218593



8 – 16 Mehefin Wythnos

Bioamrywiaeth Cymru

Wythnos o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o fywyd gwylt gogoneddus Cymru.

www.biodiversitywales.org.uk

Dydd Mawrth 11 Mehefin
Chwilota'r Estyniad II Ponderosa –
Ystafell De Prospect
10am – 4.30pm
Dewch i archwilio cyfaredd Dyffryn
Dyfrdwy a gweld pam fod y tirlun
yma wedi'i gynnwys yn Ardal o
Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau
Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy pan gafodd
ei hymestyn yn ddiweddar.
Mae'r daith gerdded 10 milltir mewn
llinell hon yn cynnwys hyfrydwch
Rhiwabon a Gweundir Llandegla.
Cyfarfod ym maes parcio Ystafell De
Gerddi Prospect ger y Garth (GR
SJ247435). Bws mini am ddim at
ddechrau'r daith gerdded.



Dydd Iau 13 Mehefin
Bywyd y Nos yn Nercwys
8.30pm – 11pm
Taith gerdded 2 ½ milltir gyda'r nos i
ddarganfod (gobeithio) troellwyr mawr,
ystlumod, tylluanod a gwyfynod.
Dewch â thortsh. Argymhellir eli rhag
pryfed! Coed Nercwys (ger yr
Wyddgrug) maes parcio'r gogledd
SJ218593

Dydd Mawrth 11 Mehefin
Y Diweddaraf ar y Forwennol Fechan
11am – 12noon
Gweler 4 Mehefin am fanylion



Dydd Mercher 12 Mehefin
Helfa Chwilog i Ddechreuwwyr
1.30 – 3.30pm
Taith gerdded 2 milltir o gwmpas Parc
Gwledig Loggerheads i'r rhai sydd â
diddordeb ym mywydau
infertebrataid. Cewch ddysgu sut i'w
canfod drwy ddefnyddio cyfres o
dechnegau gwahanol. Cyfarfod yng
Nghanolfan Fryniau Clwyd.





Dydd Gwener 14 Mehefin

Taith Gerdded Blodau Gwylt
3.30 – 5.30pm

Yn dilyn o'n cyflwyniad i wenyn, cewch archwilio'r hen reilffordd, y gamlas a'r lleiniau i weld faint o wenyn allwn ni eu gweld a pha flodau maen nhw'n eu hoffi. Mae'r daith gerdded 2 filltir yn hawdd i'r teulu ac yn addas i goetsys.

Cyfarfod ym maes parcio'r Draphont Dŵr Pontcysyllte, Trefor (SJ272423)



Dydd Sul 16 Mehefin
Diwrnod Hwyl Bywyd Gwylt

11am – 4pm

Dewch i ddathlu Wythnos Bioamrywiaeth Cymru ym Mharc Gwledig Loggerheads. Galwch i mewn gydol y dydd i ymuno mewn gweithgareddau gyda thema bywyd gwylt.



Dydd Mawrth 18 Mehefin

Y Diweddraf ar y Forwennol Fechan

11am – 12 canol dydd

Gweler 4 Mehefin am fanylion

Dydd Mercher 19 Mehefin

Traphont Dŵr y Waun

10am – 12pm

Bydd y daith gerdded hon yn cynnwys y gamlas dros Draphont Dŵr y Waun a Phont Pontfaen. Bydd lluniaeth ar gael yng Nghanolfan Ymwelwyr Safle Treftadaeth y Byd yng Nglynwylfa.

Cyfarfod yng Nglynwylfa ar Castle Road, y Waun. SJ288375



Dydd Sul 16 Mehefin Sul y Tadau

Gwersyll Undydd i'r Tadau

11am – 4pm

Gwisgwch yn gynnes a dod â'ch Tad (neu Daid!) i Loggerheads am wledd o wersylla. Treuliwch y diwrnod yn adeiladu ffau, yn cynnau tân ac yn mwynhau rhai o grefftau a choginio yn yr awyr agored.



Dydd Sadwrn 22 Mehefin

Sioe Gŵn Hwyllog Tŷ Mawr

Ymgeiswyr o 11am, beirniadu o 1pm

Ai gan eich ci chi y mae'r gynffon sy'n ysgwyd fwyaf? Parc Gwledig Tŷ Mawr, Wrecsam SJ283415

£1.50 y dosbarth - £5 ar gyfer y cyfan o'r pedwar.





Dydd Sadwrn 22 i Ddydd Sul 23 Mehefin

Her Taith Gerdded y Nos

8.15pm – 6.30am

Her 13 milltir, dros nos, tri phwynt trig, yn cychwyn yng Nghoed Nercwys gan ymweld â Moel Gyw a gorffen ym Moel Famau. Cewch ryfeddu at yr haul yn machlud dros Fryniau Clwyd a, gobeithio, at doriad gwawr ar Foel Famau. Mae'n gyfle i weld Bryniau Clwyd mewn goleuni gwahanol. Dewch â thortsh. Bydd sawl egwyl i gael diod / cawl poeth, ond dewch â dillad cynnes a diodydd poeth. Parciwch yn Loggerheads, bydd bws mini'n mynd â ni i'r man cychwyn ac yn dod â ni'n ôl ar y diwedd.



Dydd Mawrth 25 Mehefin

Y Diweddaraaf ar y Forwennol Fechan

11am – 12 canol dydd

Gweler 4 Mehefin am fanylion

Dydd Gwener 28 & Dydd Sadwrn 29 Mehefin

Diwrnod Mawr Dyfrdwy – Yr Ymosodiad

Yn dilyn llwyddiant y glanhau blynyddol ar Ddiwrnod Mawr Dyfrdwy bydd sesiwn arall i gael gwared ar rywogaethau anffordorol goresgynnol. Bydd y manylion yn cael eu rhoi ar ein tudalen gweplyfr ac ar ein gwefan yn nes at yr amser.



Dydd Mawrth 2 Gorffennaf

Y Diweddaraaf ar y Forwennol Fechan

11am – 12 canol dydd

Gweler 4 Mehefin am fanylion

Dydd Gwener 5 Gorffennaf

Taith Gerdded Tremeirchion

10.30am – 12.30pm

Cylchdaith 3 milltir o Dremeirchion yn cysylltu â Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa gyda golygfeydd godidog o Ddyffryn Clwyd. Mae'r daith gerdded hon yn rhan o'r gyfres Milltiroedd Cymunedol. Os nad ydych ar gael ar y dyddiad, mae taflenni ar gael o'r Salusbury Arms yn Nhremeirchion neu o'n gwefan.



Dydd Mawrth 9 Gorffennaf
Chwilota'r Estyniad III –
Mwyngloddiau Plwm Minera a'r
Mynyddoedd

10am – 4.30pm

Dewch a darganfod pam mae'r tirlun
yma wedi'i gynnwys yn yr AHNE
Bryniau Clwyd & Dyffryn Dyfrdwy
sydd wedi'i ymestyn yn ddiweddar.
Cewch ymuno ag un o'r Swyddogion
Treftadaeth o Wrecsam a chlywed
hanes diddorol y mwyngloddiau
plwm. Oddi yno, byddwn yn mynd ar
daith gerdded 7 milltir ar Fynydd
Minera a dod yn ôl ar yr hen
reilffordd. Cyfarfod ym Mwynglawdd
Plwm Minera, SJ272511



Dydd Mawrth 9 Gorffennaf
Y Diweddaraf ar y Forwennol Fechan
11am – 12 canol dydd
Gweler 4 Mehefin am fanylion

Dydd Sul 14 Gorffennaf
Breuddwyd Noson o Hirddydd Haf
'Ni fu llwybr serch erioed yn un llyfn'

Stori llawn doniolwch Shakespeare o
gariad, swyn a direidi gan Gwmni
Theatr arloesol a chyffrous Taking
Flight. Perfformiad promenâd gyda
cherddoriaeth fyw a phypedau a hefyd
laith Arwyddo Prydain / Saesneg.
Rhagor o fanylion ar ein gwefan ac ar
ein tudalen gweplyfr. Parc Gwledig
Loggerheads



Dydd Mawrth 16 Gorffennaf
Y Diweddaraf ar y Forwennol Fechan
11am – 12 canol dydd
Gweler 4 Mehefin am fanylion

13 – 28 Gorffennaf
Gŵyl Archaeoleg Prydain

Dydd Iau 18 Gorffennaf
Carreg Galch, Plwm a Rheilffyrdd
7 – 8.30pm
Dewch i weld Cwt Injan Clive sydd
newydd atgyweirio a'i adfer a
cherdded rhan o'r hen reilffordd,
Ffordd Prestatyn Dyserth. Cyfarfod yn y
Dyserth Falls Resort SJ056800



Gwener 19 Gorffennaf
Hwyl i'r Teulu ym Mhlas Newydd
3.30 – 5.30pm
Dewch i ddathlu diwedd y tymor ym
Mhlas Newydd! Cewch adeiladu ffau a
chwarae gemau traddodiadol. Y Caban,
Plas Newydd, Llangollen



Gwyliau'r Haf 20 Gorffennaf – 1 Medi





Dydd Sadwrn 20 a dydd Sul 21
Gorffennaf

Gŵyl Oes Fictoria yn Loggerheads

11am – 4pm

Fel rhan o Wyl Archaeoleg Prydain
cewch weld sut oedd pobl oes
Fictoria'n byw, yn gweithio ac yn
chwarae ym Mharc Gwledig
Loggerheads. Cewch hefyd gyfarfod
â'r melnydd.



Dydd Mawrth 23, Dydd Mercher 24 &
Dydd Gwener 26 Gorffennaf
Gwneud Golosg

10am – 4pm

Rhowch gynnig ar wneud golosg
traddodiadol; golosg am ddim i bawb
sy'n cymryd rhan!

Dydd Mawrth – llenwi'r odyd, dydd
Mercher - cynnau a llosgi, dydd
Gwener – bagio'r cynnyrch.

Corwen - Lein Reilffordd Cynwyd.

Cyfarfod yng nghilan Stamp, SJ060424.



Dydd Mercher 24 Gorffennaf

Cynwyd

10am – 12pm

Dewch i fwynhau Afon Dyfrdwy a'r
lein reilffordd ar daith gerdded
esmwyth o ganol Cynwyd. Byddwn yn
ymweld â rhai'n gwneud golosg ar y
lein rheilffordd a chael ein paned yno.
Cyfarfod y tu allan i Swyddfa'r Post,
Cynwyd.



Dydd Mercher 24 Gorffennaf

Hwyl y Goedwig yn Loggerheads

10.30am – 12 canol dydd

Gweithgareddau i'r teulu ym Mharc
Gwledig Loggerheads gyda'r Tîm
Addysg Goedwig. Cyfarfod y tu allan i
Ganolfan Bryniau Clwyd.



Dydd Mercher 24 Gorffennaf

**O Ddyffryn Diwydiannol i Ddyffryn
Hardd**

7pm – 9pm

Taith gerdded i ddarganfod gorffennol
diwydiannol cudd y parc hardd yma.
Cyfarfod ym maes parcio Parc Gwledig
Loggerheads SJ197626



Dydd Iau 25 Gorffennaf
Chwilota'r Estyniad IV – Llechi,
Tramleiniau a Rheilffyrdd
10am – 4pm
Dewch i archwilio cyfaredd Dyffryn
Dyfrdwy a gweld pam fod y tirlun
yma wedi'i gynnwys yn Ardal o
Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau
Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy pan gafodd
ei hymestyn yn ddiweddar.
Cerdded Mynyddoedd y Berwyn i
ganfod chwareli llechi Moel Fferna a'r
gweundir gwyllt o'u cwmpas, cyn
dychwelyd i Ddyffryn Dyfrdwy
ffrwythlon a hardd. Cyfarfod yn y
maes parcio y tu ôl i'r Institiwt yng
Nglyndyfrdwy SJ148426



Dydd Gwener 26 Gorffennaf
Dydd Gwener Coblyn a Thylwythen –
Gwiall Hud
11am – 2pm
Ymunwch â ni yn y gerddi Te yn
Loggerheads i gasglu pethau hud o'r
Parc a chreu gwialen hud hardd.



Dydd Sadwrn 27 a dydd Sul 28

Gorffennaf

Gŵyl Oes Fictoria yn Loggerheads

11am – 4pm

Fel rhan o Ŵyl Archaeoleg Prydain
cewch weld sut oedd pobl oes
Fictoria'n byw, yn gweithio ac yn
chwarae ym Mharc Gwledig
Loggerheads. Cewch edrych o gwmpas
y felin a blasu rhai o'r bwydydd y
byddai'r bobl wedi'u bwyta. Bydd
arddangosfeydd coginio drwy'r dydd.



Dydd Sul 28 Gorffennaf
Diwrnod Agored i weld y gwaith
cloddio ym Moel y Gaer Bodfari. Bydd
manylion ar gael ar ein tudalen
gweplyfr 'Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir
Ddinbych' neu ar ein gwefan yn nes at
yr adeg. Hon yw'r drydedd flwyddyn i
Brifysgol Rhydychen gloddio'r gaer Oes
Haearn bwysig hon ac mae'n gyfle
gwyh i gael sbec!

Dydd Mercher 31 Gorffennaf
Hwyl y Goedwig yn Loggerheads
10.30am – 12 canol dydd
Gweithgareddau i'r teulu ym Mharc
Gwledig Loggerheads gyda'r Tîm
Addysg Goedwig. Cyfarfod y tu allan i
Ganolfan Bryniau Clwyd.



Dydd Iau 1 Awst
Cwbwlhau'r Her
10am – 3pm

Allwch chi gwblhau'r cwrs cyfeiriannu
yng ngerddi hanesyddol hyfryd Plas
Newydd, Llangollen? Cewch wella'ch
ffitrwydd a'ch sgiliau darllen map.
Heriwch eich ffrindiau – pwy fydd yn
gorffen y cwrs gyntaf?! Methu dod
yno'r dyddiad hwnnw? Mae mapiau'r
cwrs cyfeiriannu ar gael yn y siop ym
Mhlas Newydd, piciwch i mewn am
fanylion pellach.





Dydd Iau 1 Awst

Hwyl Morol

2 – 4pm

Ymunwch â ni am weithgareddau a gemau ar draeth y Rhyl a dysgu am y bywyd gwyllt anhygoel sy'n byw yn ein moroedd ac ar ein harfordiroedd.

Croeso i grwpiau. Cyfarfod ar y traeth gyferbyn â Gorsaf y Bad Achub, SJ009819.



Dydd Iau 1 Awst

Darganfod Ystlumod Dinbych

8.30 pm – 10.30 pm

Ymunwch â ni ar daith gerdded 3 milltir o gwmpas Tref Hanesyddol, Castell a Choetiroedd Hynafol i ddarganfod pa ystlumod sydd yno. Darperir canfodyddion ond dewch ag un eich hunan os oes gennych un, a thorthsh. Cyfarfod ym Melin Brookhouse, Dinbych, SJ071657



Dydd Gwener 2 Awst

Plymio'r Afon yng Ngro Isa

10 – 12pm

Dewch i weld beth sy'n byw yn Afon Dyfrdwy. Os byddwch yn lwcus, efallai y bydd ychydig o Ffromlys Chwarennog i'w dynnu! Cyfarfod ym Mhafiliwn Chwaraeon, Corwen, SJ079437.



Dydd Gwener 2 Awst

Dydd Gwener Coblyn a Thylwythen - Adenydd

11am – 2pm

Ymunwch â ni yn y gerddi Te yn Loggerheads i gasglu pethau hud o'r Parc a chreu eich adenydd eich hunain.



Dydd Sadwrn 3 Awst

Diwrnod Agored Coed Moel Famau

10.30am – 4pm

Gweithgareddau, plymio pyllau ac arddangosfeydd. Cyfle i gyfarfod â rhai o staff tîm AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Cyfarfod ym maes parcio Coed Moel Famau. SJ172612



Dydd Mercher 7 Awst
Hwyl y Goedwig yn Loggerheads
 10.30am – 12 canol dydd
 Gweithgareddau i'r teulu ym Mharc
 Gwledig Loggerheads gyda'r Tîm
 Addysg Goedwig. Cyfarfod y tu allan i
 Ganolfan Fryniau Clwyd.



Dydd Gwener 9 Awst
 Dydd Gwener Coblyn a Thylwythen –
 Coronau Dail
 11am – 2pm
 Ymunwch â ni yn y gerddi Te yn
 Loggerheads i gasglu pethau hud o'r
 Parc a chreu coron frenhinol.



Dydd Sadwrn 10 Awst
**Archwilio Caerau Moel Arthur a
 Phenycloddiau**

10am – 4pm
 Cewch archwilio dwy gaer hynod ym
 Mryniau Clwyd a chanfod sut yr oedd
 ein cyndeidiau'n byw yn y lleoedd
 rhyfeddol hyn tua 2,500 o flynyddoedd
 yn ôl. Cyfarfod ym maes parcio
 Llangwyfan SJ139669.



Dydd Llun 12 Awst
 Sêr Gwib y Nos!
 9 – 11pm
 Taith dywys 2 filltir at gaer Caer
 Drewyn i weld, gobeithio, Perseids - y
 gawod flynyddol o sêr gwib. Byddwn
 hefyd â magl gwyfod a chanfodyddion
 ystlumod i ganfod pa greaduriaid sy'n
 byw o gwmpas ein caer Oes Haearn
 ni. Bydd diodydd poeth ar gael am
 ddim. Cyfarfod ym Maes Parcio
 Canolfan Hamdden Corwen.



Dydd Mercher 14 Awst
Hwyl y Goedwig yn Loggerheads
 10.30am – 12 canol dydd
 Gweithgareddau i'r teulu ym Mharc
 Gwledig Loggerheads gyda'r Tîm
 Addysg Goedwig. Cyfarfod y tu allan i
 Ganolfan Fryniau Clwyd.



Dydd Mercher 14 Awst

Hel Llus

10.30am – 1.30pm

Mwynhewch grwydro o gwmpas Moel Famau i ganfod y mannau gorau am lus tra'n mwynhau golygfeydd ysblennydd Bryniau Clwyd. Dewch â rhywbeth i ddal y llus. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras, Moel Famau SJ162606



Dydd Iau 15 Awst

Sioe Amaethyddol Dinbych a Fflint

☎ 01352 712131



Dydd Gwener 16 Awst

Cuddio a Mentro

11am – 4pm

Adeiladu cuddfannau a chysgodfannau yn y goedwig yn Loggerheads.



Dydd Mawrth 20 Awst

Barbeciw ac Ystlumod

7.30pm - 10.30pm

Ymunwch â ni am farbeciw yn y goedwig ac yna sgwrs am ystlumod a thaith gerdded fer. Dewch â thortsh. Coed Nercwys (ger yr Wyddgrug) maes parcio'r gogledd SJ218593



Dydd Mercher 21 Awst

Crwydro'r Gweundir

10am – 12pm

Dewch i archwilio'r gweundir hardd ar ochr ddwyreiniol yr AHNE, a chrwydro'n hamddenol ar lwybrau'r llus a'r grug. Byddwn yn gorffen yn ystafell de Prospects.

Cyfarfod yn Ystafelloedd Te Gerddi Prospect ger y Garth SJ247435



Dydd Mercher 21 Awst

Hwyl y Goedwig yn Loggerheads

10.30am – 12 canol dydd

Gweithgareddau i'r teulu ym Mharc

Gwledig Loggerheads gyda'r Tîm

Addysg Goedwig. Cyfarfod y tu allan i Ganolfan Fryniau Clwyd.



Dydd Gwener 23 Awst

Y Goedwig Hudolus

10am – 12 canol dydd neu 2pm - 4pm

Antur hud a lledrith yng nghoetir

Loggerheads. Cewch gyfarfod â

chymeriadau chwedlonol, datrys posau

a pherfformio swynau i ennill aur y dewin.



Dydd Mercher 27 Awst

Hwyl Morol

10am – 12 canol dydd

Dewch gyda ni am weithgareddau a gemau ar draeth y Rhyl a dysgu am y bywyd gwyllt anhygoel sy'n byw yn ein moroedd ac ar ein harfordiroedd.

Croeso i grwpiau. Cyfarfod ar y traeth gyferbyn â Gorsaf y Bad Achub, SJ009819.



Dydd Mercher 28 Awst

Hwyl y Goedwig yn Loggerheads

10.30am – 12 canol dydd

Gweithgareddau i'r teulu ym Mharc

Gwledig Loggerheads gyda'r Tîm

Addysg Goedwig. Cyfarfod y tu allan i Ganolfan Fryniau Clwyd.



Dydd Iau 29 Awst

Tŷ Mawr – Diwrnod Old Macdonald

1.30 – 3.30pm

Cyfarfod â'r anifeiliaid, gwneud bathodyn a mynd am dro ar y tractor!

Parc Gwledig Tŷ Mawr, Wrecsam

SJ283415



Dydd Iau 29 Awst

Swae 'Slumod

8pm – 10pm

Dewch i ddysgu am ystumod, cyflwyniad byr ac yna taith gerdded hwylus 1 milltir i ddefnyddio canfodyddion ystumod ac ymarfer yr hyn sydd wedi'i ddysgu! Dewch â thorthsh.

Parc Gwledig Loggerheads



Dydd Gwener 30 Awst

Sbwriel a sothach

10am – 12 canol dydd neu 2pm - 4pm

Gwnewch ddefnydd da o ysbwriel a chreu'ch creadur wedi'i ailgylchu eich hunain i fynd adref. Parc Gwledig Loggerheads:



Dydd Sadwrn 31 Awst - Dydd Sul 1 Medi

Gŵyl Gerdded Corwen

Mae'r ŵyl rad ac am ddim hon yn cael ei threfnu o'r Pafiliwn Chwaraeon gyda dewis gwych o deithiau cerdded, sgysiau a sioe ffasiwn dillad awyr agored o Cotswold Outdoor.

www.corwenwalkingfestival.co.uk



Chwiliwch am Ddrysau Agored Sir Ddinbych ym mis Medi

www.opendoorsdenbighshire.org.uk

www.drysauagoredsirddinbych.ork.uk

Dydd Sul 1 Medi

Chwilota'r Estyniad V Ponderosa - Corwen

9.30am – 4pm

Dewch i archwilio cyfaredd Dyffryn Dyfrdwy a gweld pam fod y tirlun yma wedi'i gynnwys yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy pan gafodd ei hymestyn yn ddiweddar.

Taith gerdded 10 milltir ar bonciau a phantiau Bryniau Llandysilio - rhai yn eithaf serth, ond mae'r golygfeydd pellennig, godidog yn werth eu gweld.

Cyfarfod ym Maes Parcio'r Pafiliwn Chwaraeon, Green Lane, Corwen (SJ079436) 9.30am. Bydd bws mini yn mynd â ni oddi yno am ddim i gaffi Ponderosa.



Dydd Sadwrn 7 Medi

Llwybr Cwrw Go Iawn

Tocynnau £10 o flaen llaw £15 ar y diwrnod.

www.realaletrailflintshire.co.uk



Dydd Mercher 18 Medi

Glyndyfrdwy

10am – 12 canol dydd

Mae'r daith gerdded 2.5 milltir yn dilyn llwybr tawel o gwmpas Coed Pen y Garth (sy'n gallu bod yn fwdlyd ar adegau). Awn i gaffi'r orsaf neu i'r Berwyn Arms am luniaeth.

Cyfarfod yn y gilau i'r dwyrain ger y Dyn Pili Pala, SJ157425



21 & 22 Medi

Gŵyl fwyd yr Wyddgrug

Dydd Sul 29 Medi

Taith yr Hydref i'r Draphont Ddŵr

1pm

Mwynhewch y daith gerdded yno ac yn ôl 3 milltir hon i edmygu Safle

Treftadaeth y Byd yn Ardal o Harddwch

Neilltuol Eithriadol Bryniau Clwyd a

Dyffryn Dyfrdwy. Cyfarfod yng

Nghanolfan Ymwelwyr Tŷ Mawr,

Wrecsam SJ283415



01978 822780



Open 2 Offas

Her taith gerdded hirach yn apelio? Yn cychwyn yng Nghilcain (SJ176652),

mae 'Open 2 Offas' yn daith gerdded heriol 14, 21 neu 31 milltir dros

Fryniau Clwyd. Merseystriders, grŵp

lleol o Gymdeithas y Cerddwyr Pellter

Hir, sy'n trefnu ac mae'n brofiad

gwerth chweil. Bydd lluniaeth ar y

daith a phryd o fwyd ar y diwedd. Am

ragor o fanylion a gwybodaeth ewch

at: www.ldwa.org.uk/merseystride a

dilyn y dolenni.

Dydd Gwener 4 - Dydd Sul 6 Hydref
Arddangosfa Grŵp Celf Llanferres
Gwener 2.30 – 4.30pm
Sadwrn a Sul 10.30am – 4.30pm
Parc Gwledig Loggerheads.

Dydd Mercher 16 Hydref

Cei Llangollen

10am – 12pm

Ar ôl dechreuad gwastad braf ar hyd y gamlas, bydd y daith gerdded hon yn dringo'n esmwyth i gefn Neuadd Geufon cyn dychwelyd ar Wern Road am lymaid haeddiannol yn Wharf Café.

Cyfarfod yng Nghei Llangollen wrth y caffi. SJ215422



26 Hydref – 3 Tachwedd Hanner Tymor

Dydd Sadwrn 26 Hydref
Edward I a Dinbych y Canol Oesoedd
10am – 12 canol dydd
Cerdded i fyni'r allt i'r castell i gychwyn ar daith o gwmpas y dref ganol oesol a'r goedwig. Cyfarfod y tu allan i'r Llyfrgell SJ052661



Dydd Mawrth 29 Hydref
Cerfio Pwmpen
2pm & 3pm
Dewch â'ch pwmpen eich hunan a byddwch yn greadigol. Parc Gwledig Loggerheads



Dydd Mawrth 29 Hydref

Taith Gerdded Arswyd i Ben y Pigyn.
5 – 7pm

Cyfarfod yng Ngherrig yr Orsedd (dilyn yr arwyddion o'r Swyddfa Bost) a gweld beth sydd i'n dychryn yn y goedwig heddiw. Pen y Pigyn, Corwen SJ076432



Dydd Mercher 30 Hydref

Gwe Pry Cop Gwallgof

11am – 4pm

Picio i mewn a gwneud mwgwd, sgerbwd o briciau neu we pry cop gwallgof ym Mharc Gwledig Loggerheads.



Dydd Iau 31 Hydref

Hallowoods

4.30 – 6.30pm

Clasur o stori arswyd yn cael ei hadrodd gan wrach ddrwg y goedwig, gan gynnwys llwybr hudolus drwy'r coetir. Gwisg ffansi gynnes, esgidiau glaw a thortsh yn hanfodol. Parc Gwledig Loggerheads



Taith Offa

Cewch ymestyn ychydig! Taith gerdded 20 milltir ym Mrynau Clwyd gyda golygfeydd ysbennedd a llawer o ymarfer corff. Cewch ei gwneud unrhyw bryd y bydd y tywydd yn eich siwtio a phan fyddwch yn teimlo'n ffrit! Mae'n ddelfrydol ar gyfer taith gerdded mewn grŵp. Cewch ddisgrifiad o'r llwybr a gwybodaeth ddefnyddiol trwy anfon amlen gyda stamp at Caeant, Llangynhafal, Rhuthun, LL15 1RU neu drwy e-bost at michael.skuse@btinternet.com.

Chwilota'r Estyniad VI Cylchdaith
Llangollen
10am – 4pm
Dewch i archwilio cyfaredd Dyffryn
Dyfrdwy a gweld pam fod y tirlun
yma wedi'i gynnwys yn Ardal o
Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau
Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy pan gafodd
ei hymestyn yn ddiweddar.
Cewch fwynhau lliwiau'r hydref ar y
daith gerdded gymedrol 10 milltir o
gwmpas Dyffryn Dyfrdwy o Llangollen
i Draphont Ddŵr Pontcysyllte ac yn ôl
trwy Sun Bank. Cyfarfod ym Mhlas
Newydd, Llangollen, SJ218416.



Dydd Gwener 15 Tachwedd

Draenogod!

3.30 – 5pm

Cewch ddarganfod rhagor am
ddraenogod a chreaduriaid eraill sydd,
yn ddoeth iawn, yn cysgu trwy'r gaeaf.
Gallwn gasglu dail yr hydref a chreu
cludwaith enfawr, neu wneud ein
creaduriaid ein hunain yn y glyn os
bydd y tywydd yn garedig. Y Caban,
Plas Newydd, Llangollen



Dydd Mercher 20 Tachwedd
Coedwig Trefor
10am – 12 ganol dydd
Taith gerdded olaf y flwyddyn i
fanteisio ar liwiau olaf yr hydref yng
Nghoedwig Trefor a chamlas
Llangollen, cyn gorffen yn y Sun Inn.
Cyfarfod yn y Sun Inn, Trefor.
SJ242424



Dydd Gwener 6 Rhagfyr

Gwneud Dyn Eira!

3.30 – 5pm

Os na fydd eira ar gael, sy'n annhebyg
yr adeg yma, byddwn yn gwneud
llusernau plu eira yng nghysur y Caban.
Y Caban, Plas Newydd, Llangollen



Dydd Gwener 6 Rhagfyr

Gaeaf Cymreig Bendigedig

2pm – 6pm

Dathlu'r gaeaf ym Mharc Gwledig
Loggerheads drwy baratoi coed yr ŵyl.
Cewch wneud offer bwydo naturiol a
lliwgar i adar yn ein hystafell grefft,
cewch fwynhau mynd am dro y gaeaf
eich hunan ac yna gynhesu yn y Caffi a
chael eich ysbrydoli gan ein
hanrhegion Nadolig yn y Siop (ar agor
yn hwyr tan 7pm).



Dydd Sul 8 Rhagfyr

Tŷ Mawr - Craceri'r Nadolig

1.30 – 3.30pm

Crefftau hwyliog o ddefnyddiau
naturiol a rhai wedi'u hailgylchu. Parc
Gwledig Tŷ Mawr, Wrecsam SJ283415



Gwyliau'r Nadolig 21 Rhagfyr
– 6 Ionawr

Nadolig yn Loggerheads
Hwyl i'r teulu i gyd ym Mharc Gwledig
Loggerheads y Nadolig hwn
Ffoniwch Caffi Florence 01352 810397
www.caffiflorence.co.uk

Twristiaeth Wyrdd

Nod y rhaglen hon o ddigwyddiadau yw cael pobl i fynd allan a mynd o gwmpas yng nghefn gwlad i fwynhau ac i werthfawrogi'n tirlun a'n byd natur anhygoel. Rydyn ni'n gobeithio y bydd pobl yn dysgu ychydig yn rhagor am ein daeareg, ein bywyd gwyllt, ein hanes a'n diwylliant ac yn lledaenu'r gair i'w ffrindiau a'u teuluoedd. Fel Gwasanaeth Cefn Gwlad rydym yn gweithio'n agos iawn â chymunedau a busnesau a, gobeithio, yn creu awydd ar bobl i ymweld ac i aros yn yr ardal ond hefyd i ymddwyn mewn ffordd gynaliadwy h.y. defnyddio cludiant cyhoeddus, bwyta cynnyrch lleol a dilyn y côd cefn gwlad.

O ganlyniad i'n hymrwymiad i Dwristiaeth Gynaliadwy / Gwyrdd rydym wedi derbyn arian am ddwy flynedd gan Gronfa Amaethyddol Ewrop dros Ddatblygu Gwledig trwy Dwristiaeth Wyrdd, sy'n cael ei weinyddu gan Asiantaeth Datblygu Gwledig Cadwyn Clwyd.

"Derbyniodd Bryniau Clwyd Siarter Europarc dros Dwristiaeth Gynaliadwy mewn Tirluniau Gwarchodedig yn 2009 ac ysbrydolodd hynny'r prosiect i ddefnyddio egwyddorion Europarc i annog twristiaeth gynaliadwy ledled Sir Ddinbych.



Arhoswch ychydig yn hirach a mwynhau ymweld ag un o'r cannoedd o leoedd ffantastig gerllaw.



Gan ganolbwyntio ar ddiwylliant, treftadaeth a'r amgylchedd naturiol, mae'r cyfan yn golygu gwneud newidiadau positif i dwristiaeth gyda'r bwriad o annog rhagor o bobl i ymweld; rhoi rhesymau iddyn nhw aros yn hirach; a helpu i wneud Sir Ddinbych yn gyrchfan gydol y flwyddyn." Am ragor o wybodaeth ar y prosiect hwn ewch i www.cadwynclwyd.co.uk

Dewch i'n digwyddiadau ar fws a lleihau'ch ôl troed carbon!

Mae'r "Vale Rider" yn rhedeg drwy harddwch Dyffryn Clwyd a'r "Coast Rider" drwy olygfeydd ysbennedd o forlun Sir Ddinbych.

Mae Liffit Llangollen yn wasanaeth bws mini am ddim sy'n rhedeg ar benwythnosau o'r Gwanwyn i'r Hydref. Mae'n wych ar gyfer teithiau cerdded ac yn galw heibio Panorama, Pentredwr, y Ponderosa a Rhaeadr y Bedol.

Mwy o ddigwyddiadau gwych a gwybodaeth...

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych

☎ 01352 810614/586

loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk

www.denbighshirecountryside.org.uk

www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk

Canolfan Bryniau Clwyd ym Mharc Gwledig Loggerheads

Lle anhygoel i gael anrheg gwych ar gyfer unrhyw achlysur. Hefyd, dyma'r lle i helpu i gynllunio'ch ymweliad nid yn unig â Loggerheads, ond â Foel Famau ac ymhellach i ffwrdd. Mapiau, llyfrau, anrhegion, canolfan groeso a gweithgareddau gwych ac ymarferol i bawb. Ar agor bob dydd ac eithrio Noswyl Nadolig a Dydd Nadolig. ☎ 01352 810586.

Caffi Florence at Loggerheads Country Park

Bwydydd a diodydd ffres, lleol, tymhorol ac wedi'u gwneud gartref.

Cyrsiau a gweithdai coginio gwych. Ar agor bob dydd ac eithrio Dydd Nadolig.

☎ 01352 810538. info@caffiflorence.co.uk

www.caffiflorence.co.uk

Llety a phethau i'w gwneud.

www.visitclwydianrange.co.uk

www.ridenorthwales.com

www.borderlands.co.uk

www.specialplacesindenbighshire.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

Clwb Archeolegwyr Ifanc

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn archaeoleg a rhwng 8 ac 16 mlwydd oed, ymunwch a'r Clwb Archeolegwyr Ifanc sy'n cael ei drefnu gan Gyngor Archaeoleg Prydain.

loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk

Rockwatch

Clwb iau Cymdeithas Daearegwyr i bob daearegwr ifanc sydd â diddordeb mewn cerrig, ffosiliau, mwynau a thirluniau.

☎ 0207 734 5398. www.rockwatch.org.uk

rockwatchatga@btinternet.com

Mae'r Ganolfan Sgiliau Coetir yn rhedeg cyrsiau mewn crefftiau a choedwraeth traddodiadol a hefyd ddyddiau i'r teulu a chlwb gwyliau. Mae mewn 50 erw o goetir yng nghanol yr AHNE ger Bodfari. www.woodlandskillscentre.co.uk ☎ 01745 710626.

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint

01244 814931

countryside@flintshire.gov.uk

www.flintshire.gov.uk/countryside

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

☎ 0300 068 0300.

Swyddog Addysg: ☎ 01352 810796.

www.forestry.gsi.gov.uk

Canolfan Ymwelwyr Llyn Breninig

☎ 01490 420463

www.hiraethog.org.uk

Gwasanaeth Cefn Gwlad Wrecsam

☎ 01978 763140

countryparks@wrexham.gov.uk

www.wrexham.gov.uk/countryside

Gwasanaeth Cefn Gwlad Conwy

☎ 01492 575200

www.conwy.gov.uk/countryside

Canolfan Groeso'r Wyddgrug

Canolfan Groeso'r Rhyl

Canolfan Groeso Llangollen

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru

☎ 01352 810469/07764 897412.

acjones@wildlifetrustswales.org

www.northwaleswildlifetrust.org.uk

Cymdeithas y Cerddwyr

01352 715723

www.ramblersnorthwales.org.uk

Bywyd Gwylt Gogledd Ddwyrain Cymru

☎ 01352 742115/238

cweo@newwildlife.org.uk

www.newwildlife.org.uk

RSPB

☎ 0151 336 7681

www.rspb.org.uk

Ymddiriedolaeth Genedlaethol Castell y Waun

☎ 01691 777701

Cadwraeth Glöyn Byw Gogledd Cymru

www.northwalesbutterflies.org.uk


Arweinlyfr Teithiau Bathodyn Gwyrdd

Teithiau cerdded i unigolion neu grwpiau yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Heather Williams

☎ 01824 704998. htnw@btinternet.com

www.heritagetoursnorthwales.com





AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn
Dyfrdwy / Clwydian Range
and Dee Valley AONB.

Sir Ddinbych
Denbighshire